

Amserlen i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Mewnfudo Anghyfreithlon

Ebrill 2023

Ar 25 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Mewnfudo Anghyfreithlon a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 15 Mehefin 2023.

